# LC1171

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005 drwy ddiwygio ymhellach y diffiniad o Gyfarwyddeb 2000/13 fel y'i nodir yn y Rheoliadau a hefyd drwy ddiwygio'r esemptiau a ganiateir mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer labelu alergenau yn achos gelatin pysgod a ddefnyddir i gludo paratoadau carotenaidd.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn ail baragraff rhaglith y Rheoliadau, dywedir bod y Cynulliad, yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, wedi ystyried cyngor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r testun Saesneg wedi'i ysgrifennu yn yr amser gorffennol gan awgrymu bod y Cynulliad wedi ystyried y cyngor hwn cyn gwneud y Rheoliadau, ond mae'r testun Cymraeg yn awgrymu'r amser presennol. [Rheol Sefydlog 11.7 (vi)]. Mae modd cywiro'r anghysondeb hwn drwy gyfrwng y Memorandwm Cywiriadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**15 Tachwedd 2005**